# Dyfarniad Rheoleiddio

## Awst 2026

## Cartrefi Conwy– L148

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |

**Y Broses Dyfarnu**

Cynhaliwyd yr asesiad o Cartrefi Conwy yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygu hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, cynllun gwella cydymffurfio a dogfennau cysylltiedig, adolygwyd trefniadau llywodraethu, rheoli risg, gwasanaethau, cynllunio a rheolaeth ariannol ac asedau a dyledion yn fwy manwl.

Ynghyd ag adolygiad o ddogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweliadau â'r Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd y Bwrdd, a'r Cyfarwyddwr Adnoddau, arsylwyd ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a mynychodd y tîm rheoleiddio cyfarfod panel preswylwyr a digwyddiad ymgysylltu â phreswylwyr. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o ganlyniad i gysylltu â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn rheolaidd.

**Gofynion Hunanwerthuso a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025**

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn. Rhaid mynd i'r afael â'r gofynion a nodir isod yn llawn yn eich hunanwerthusiad nesaf:

- **Gofyniad 4**. Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.

Bydd Cartrefi Conwy yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

**Cartrefi Conwy: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **4,209** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£32.774m** |
| **Sicrwydd Llog** | **234%** |
| **Gerio** | **53%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT)** |
| **Lleoliad** | **Gogledd Cymru** |

*Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi dealltwriaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar:

- Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: rheoleiddio.tai@gov.wales

ISBN digidol 978-1-83715-907-9
Hawlfraint y Goron 2026